George Fox 1624–1691

Sylfaenydd Cymdeithas y Cyfeillion neu'r Crynwyr

Ganwyd George Fox yn Drayton-in-the-Clay – heddiw fe'i gelwir yn Fenny Drayton – Swydd Caerlŷr (Leicestershire). Roedd ei rieni yn Biwritaniaid, ei dad yn wehydd a'i fam 'o linach y merthyron'. Nid yw'n ymddangos iddo gael unrhyw addysg ffurfiol. Dywedir pan oedd yn fachgen un ar ddeg oed ei fod yn honni iddo gael profiadau ysbrydol a theimlo purdeb y presenoldeb dwyfol. Roedd ei rieni yn awyddus iddo fynd i'r offeiriadaeth ond fe'i prentisiwyd yn hytrach fel crydd.

Un diwrnod mewn ffair cafodd wahoddiad gan ddau Biwritan i fynd i wlychu ei big a diota. Gadawodd yn fuan oherwydd ei fod yn gweld anghysondeb mawr rhwng eu cred Gristnogol a'u hymddygiad moesol. Y noson honno, ac yntau yn bedair ar bymtheg oed, teimlodd alwad gan Dduw i adael ei waith a mynd ar bererindod ysbrydol.

Am dair blynedd bu'n chwilio am berffeithrwydd gan drafod gydag offeiriaid, ond nid oedd hyn yn ei fodloni. Ni allai deimlo sicrwydd ei fod wedi ei achub na phrofi buddugoliaeth dros bechod. Treuliodd lawer o amser yn darllen y Beibl a gweddïo ond ni chafodd dawelwch yn ei galon hyd 1647 pan glywodd lais Duw yn siarad gydag ef. Yn ddiweddarach dywedai ei fod wedi cael tangnefedd nid trwy'r Ysgrythur ond trwy i Grist ei ddatguddio ei hun yn uniongyrchol iddo. Yn raddol datblygodd ei syniadaeth ynglŷn â goleuni mewnol yng nghalonnau pobl. Yn nes ymlaen rhai o brif nodweddion y Crynwyr oedd eu bod yn wrth-offeiriadol, yn gwrthod tyngu llw ac yn ffyrnig yn erbyn talu'r degwm i'r Eglwys Sefydledig ac erbyn diwedd cyfnod Fox yn heddychwyr.

Yn fuan dechreuodd weinidogaethu fel pregethwr teithiol. Dywedai, 'Am ormod o amser mae Crist wedi cael ei gloi mewn offeren neu yn Y Llyfr; caniatewch iddo fod yn broffwyd, yn offeiriad, yn Frenin. Ufuddhewch iddo.' Argyhoeddwyd cannoedd gan yr hyn a ddywedai. Pregethai yn yr awyr agored ac ar ddiwedd cyfarfodydd gan y Piwritaniaid. Wrth bregethu un tro o Efengyl Ioan dywedodd fod 'pob dyn yn cael ei oleuo gan

oleuni dwyfol Crist ac y byddai pobl oedd yn ffyddlon iddo yn cyrraedd cyflwr o berffeithrwydd fel Adda cyn y cwymp.' Oherwydd ei safbwyntiau ac am iddo dorri ar draws pregeth fe'i carcharwyd yn Nottingham ym 1649. Mewn achos llys y flwyddyn ddilynol disgrifiodd yr Ynad ef fel 'Quaker', ac fe gydiodd yr enw. Yn ddiweddarach gelwid ei ddilynwyr yn Blant y Goleuni a Chyfeillion y Gwirionedd.

Ym 1652 symudodd i Pendle Hill, Swydd Gaerhirfryn (Lancashire), ac yma fe gafodd lwyddiant mawr. Daeth miloedd i gredu ac erbyn 1654 gallai anfon 60 o genhadon allan i gyhoeddi eu cenadwri.

Yn ystod ei oes cyhoeddodd Fox lawer o bamffledi a thraethodau. Un o'i bamffledi mwyaf radical oedd *Fifty-Nine Particulars for the Regulating [of] Things* (1659). Yn hwn galwai ar y llywodraeth i gymryd eiddo oddi ar y cyfoethogion er mwyn rhannu gyda'r tlodion.

Datblygodd arferion arbennig ymhlith y Crynwyr. Roeddent yn gwrthod gwisgo dillad crand, codi eu hetiau i ustusiaid ac ymuno â'r fyddin, ac yr oeddent yn galw ar yr Eglwys i droi at heddychiaeth. Oherwydd hyn bu'n rhaid iddynt wynebu llawer o erledigaeth; ymosodwyd ar rai a charcharwyd eraill. Lladdwyd 32 o Grynwyr.

Ym 1669 priododd Fox gyda Margaret Fell a daeth eu cartref, sef Swarthmore Hall, Swydd Gaerhirfryn, yn ganolfan i'r mudiad. Anfonwyd cenhadon i Barbados, Jamaica, Virginia a Lloegr Newydd. Ym 1671 aeth Fox ar daith i Barbados a Jamaica ac i Maryland, Long Island a Rhode Island yng Ngogledd America er mwyn cyfarfod ac annog y Crynwyr oedd wedi ymsefydlu yno. Roedd y Crynwyr yn enwog am eu tegwch mewn busnes ac oherwydd hynny ffynnodd llawer ohonynt. Pan fu farw George Fox ar 13 Ionawr 1691 roedd nifer y Crynwyr wedi cynyddu i oddeutu 100,000. Claddwyd ei weddillion gerllaw Tŷ Cwrdd Bunhill Fields.